

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Cynnwys | |
| Rhaglen | 2 |
| Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf | 6 |
| 5 - Adnoddau i gefnogi gwaith aelodau | 11 |
| Atodiad | 15 |
| 6 -Protocol Cyfryngau Cymdeithasol | 16 |
| Atodiad | 17 |
| 7 - Gwe Ddarlledu | 20 |
| 8 - Gwefannau i Gyngorau Tref a Chymuned | 22 |
| 9 - Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig | 24 |



Gwasanaeth Democraidd
Democracy Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DEMOCRATIC SERVICE COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.00 a.m. DYDD MERCHER, 11 RHAGFYR, 2013

10.00 a.m. WEDNESDAY, 11 DECEMBER, 2013

Lleoliad / Location

SIAMBR HYWEL DDA
SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES
CAERNARFON

Noder y man cyfarfod os gwelwch yn dda/Please note the venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

IOAN HUGHES

(01286) 679780

IoanHughes@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 4.12.13

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

AELODAETH / MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr / Councillors

Selwyn Griffiths
Michael Sol Owen
Dilwyn Morgan

Charles Wyn Jones
Linda Ann Wyn Jones
Gareth Thomas

Mandy Williams-Davies

Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

| | |
|------------------|--------------|
| Lesley Day | Tom Ellis |
| Anne Lloyd-Jones | Jean Forsyth |

Llais Gwynedd (3)

Dilwyn Lloyd

Jason Humphreys

Anwen Davies

Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council
Y Cynghorwyr / Councillors Selwyn Griffiths a / and Huw Edwards

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2013 fel rhai cywir (copi yma – papur melyn).

5. ADNODDAU I GEFNOGI GWAITH AELODAU

Ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, (copi yma – papur gwyn)

6. PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, (copi yma – papur lelog)

7. GWE DDARLLEDU

Ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, (copi yma – papur pinc)

8. GWEFANNAU I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, (copi yma – papur hufen)

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG

Ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, (copi yma – papur llwyd)

AGENDA

1. APOLOGIES

To receive any apologies for absence.

2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

3. URGENT BUSINESS

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

4. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 10 September, 2013 be signed as a true record (copy herewith – **yellow** paper).

5. RESOURCES TO SUPPORT MEMBERS' WORK

To consider the report of the Head of Democratic Services, (copy herewith – **white** paper)

6. SOCIAL MEDIA PROTOCOL

To consider the report of the Head of Democratic Services, (copy herewith – **lilac** paper)

7. WEB-CASTING

To consider the report of the Head of Democratic Services, (copy herewith – **pink** paper)

8. WEBSITES FOR TOWN AND COMMUNITY COUNCILS

To consider the report of the Head of Democratic Services, (copy herewith – **cream** paper)

9. ANNUAL REPORTS BY ELECTED MEMBERS

To consider the report of the Head of Democratic Services, (copy herewith – **grey** paper)

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 10.09.13

Yn bresennol: Y Cyngorydd Lesley Day (Cadeirydd);
Y Cyngorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Anwen Davies, Tom Ellis, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen a Gareth Thomas.

Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Gofal Cwsmer).

Swyddogion: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Debbie Williams Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro), Sion Gwynfryn Williams (Rheolwr Cyfathrebu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Charles Wyn Jones a Mandy Williams-Davies.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. DYMUNIADAU GORAU

Dymunwyd yn dda i Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, ar enedigaeth merch yn ddiweddar.

3. MATER BRYD – YMATEB I YMGYNGHORIAD Y COMISIWN AR LYWODRAETHU A DARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater bryd o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn cael eglurder ar y sefyllfa gyfansoddiadol yn y drafodaeth ar y mater yn y Cyngor llawn ar 19 Medi, 2013.

Mynegwyd pryder ynglŷn â chynnwys llythyr a anfonwyd gan Arweinydd y Cyngor mewn ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a'r ffaith bod yr ymateb wedi'i anfon ar ran y Cyngor cyn ymgynghori â'r aelodau. 'Roedd y mater yn ymddangos ar raglen y Cyngor ar y 19fed o Fedi, ond dadleuwyd bod hynny'n rhy hwyr ac y dylid bod wedi galw cyfarfod bryd o'r Cyngor i drafod yr ymateb cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 31 Awst.

O safbwynt y broses, amlinellodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y drefn arferol o gyflwyno sylwadau amodol hyd oni fo pwyllgor wedi cyfarfod, ac eglurodd hefyd y byddai'n anghyfansoddiadol i'r pwyllgor hwn drafod yr ymateb oherwydd bod y mater y tu allan i'w gylch gorchwyl.

PENDERFYNWYD gadael y mater i'r Cyngor ei drafod.

Nododd y Cadeirydd ei pharodrwydd i anfon unrhyw sylwadau gan aelodau fel unigolion ymlaen i'r Comisiwn.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, 2013 fel rhai cywir.

5. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ac yn gofyn i'r pwyllgor ystyried eu haddasu yn benodol i Wynedd a/neu lunio protocol penodol ar gyfer y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr.

Ymhelaethodd y Rheolwr Cyfathrebu ar ddefnydd y Cyngor o wefannau cymdeithasol yn gorfforaethol a rhoddodd amlinelliad o rym a photensial y cyfryngau newydd hyn. Awgrymodd fod y canllawiau cenedlaethol yn fan cychwyn da, ond bod lle i'w cryfhau, er enghraifft, o bersbectif yr iaith Gymraeg.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Bod cofio bod llawer o etholwyr yn dewis cysylltu â'r Cyngor drwy alw yn y swyddfa, ffonio neu yrru neges destun neu e-bost.
- Y byddai'n fuddiol darparu hyfforddiant i'r aelodau ar y canllaw, ar ôl ei fabwysiadu, ynghyd â chyfres o awgrymiadau ar sut i ddefnyddio *Facebook* a *Twitter*.
- Y gallai is-grŵp edrych ar y posibilrwydd y gallai'r Aelodau Cabinet ddefnyddio *Twitter* fel dull o rannu gwybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd o fewn eu maes portffolio.

Cyfeiriodd aelod at anawsterau technegol gyda'r I-pad, gan nodi fod yr aelodau angen fwy o gefnogaeth gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth. Cytunodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol i fynd â'r neges yn ôl.

PENDERFYNWYD

- (a) **Argymhell y dylai Gwynedd fabwysiadu eu canllawiau eu hunain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol.**
- (b) **Argymhell sefydlu is-grŵp ar y cyd gyda'r Pwyllgor Safonau i gydweithio ar lunio canllawiau cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ar gyfer Gwynedd (gyda'r union broses ar gyfer cyflawni hynny i'w gytuno rhwng Cadeiryddion y ddau bwyllgor).**
- (c) **Enwebu Cadeirydd y pwyllgor hwn, Y Cynghorydd Lesley Day, ynghyd â'r Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Sion Wyn Jones i wasanaethu ar yr is-grŵp.**

6. GWE DDARLLEDU A MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno'r datblygiadau diweddaraf ynghylch cwrdd â gofynion gwe ddarlledu, mynychu cyfarfodydd o bell a'r datblygiadau ynghylch grant i gynghorau tref a chymuned.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

Mynychu cyfarfodydd o bell

- Y gallai'r aelodau hynny sy'n cymryd rhan o Bwllheli neu Ddolgellau deimlo'n ynysig gan ei bod yn anodd iddynt dynnu sylw'r Cadeirydd yng Nghaernarfon.
- Er bod y cyfrwng yn gweithio, na ddymunid ei weld yn cael ei ymestyn yn ormodol.
- Y dylid sefydlu polisi ynglŷn â beth fydd yn digwydd os yw'r offer yn peidio â gweithio.
- Y gellid edrych ar wneud astudiaeth manteision cost o gynnal cyfarfodydd o bell.
- Bod angen hyfforddi cadeiryddion ynglŷn â sut i redeg cyfarfod drwy fideo gynadledda.
- Ei bod yn anodd i gadeirydd yn Ystafell Ogwen, Caernarfon gadw llygaid ar y sgrin fawr (Dolgellau) a'r sgrin fach (Pwllheli) a'r bobl sydd yn yr ystafell, a bod peryg' anwybyddu pobl sydd ddim yn yr un ystafell.

Gwe ddarlledu

- Y dylid gwneud ymdrech arbennig i we ddarlledu pan fo pwnc mawr a dadleuol yn dod i fyny oherwydd ei bod yn bwysig bod pawb sy'n dymuno gwrando ar y drafodaeth yn cael y cyfle i wneud hynny.
- O safbwynt hawl y cyhoedd i wrando ar drafodaethau'r Cyngor, nodwyd nad oedd y drws allanol i'r Siambr yn agored ar gychwyn cyfarfodydd y dyddiau hyn a nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y byddai hynny'n cael ei ddatrys.

Datblygiad gwefannau i gynghorau tref a chymuned

- Holwyd ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai cynghorau cymuned greu gwefannau ar y cyd a chytunodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol i wirio'r canllawiau i weld a fyddai hynny'n bosib'.

PENDERFYNWYD

- Cymeradwyo symud ymlaen gyda darpariaeth ymuno â chyfarfodydd o bell, yn amodol ar y cymalau isod:-**
 - Bod y ddarpariaeth ar gael yn yr ystafelloedd fideo gynadledda yn eiddo'r Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli yn unig (er cael sicrwydd am ddibynadwyedd y ddarpariaeth);**
 - Peidio â chynnig y ddarpariaeth ar gyfer cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau gweithredol (Cabinet, Cyngor, Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Trwyddedu) ar y cychwyn er osgoi unrhyw gwestiynau cyfansoddiadol pe byddai'r offer yn peidio â gweithio ac aelod felly yn methu ymarfer ei hawl pleidleisio.**
- Cymeradwyo symud ymlaen gyda darpariaeth gwe-ddarlledu o Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda ac, yn amodol ar faint y costau, i wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw ofynion sefydlu a chynnal y tu hwnt i'r arian grant allan o'r gyllideb Costau Democratiaeth.**
- Parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygu gwefannau i gynghorau cymuned, gan dderbyn diweddariad ar y niferoedd sydd wedi datgan diddordeb i sefydlu gwefan yn y cyfarfod nesaf.**

7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn manylu ar y gwersi a ddysgwyd o brofiad yr aelodau o lunio Adroddiadau Blynyddol eleni.

O safbwynt cywirdeb, nodwyd bod angen newid y cyfeiriad at y Cynghorydd 'Eirwyn Thomas' ym mharagraff 3.1 i ddarllen 'Eirwyn Williams'.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Ei bod yn hynod bwysig bod yr aelodau'n cadw cofnod parhaus o'u gweithgareddau er mwyn hwyluso llunio'r adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn.
- Ei bod yn bwysig bod yr aelodau'n deall nad oes gorfodaeth arnynt i gyhoeddi adroddiad blynyddol.
- Bod y canllawiau braidd yn gyfyngedig ac nad oes rhyddid i'r aelod wneud unrhyw sylwadau personol yn ei adroddiad.
- Ei bod yn anodd dod o hyd i'r adroddiadau blynyddol ar wefan y Cyngor. Mewn ymateb, eglurodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol fod yna adran arbennig ar hyn ynghyd â linc i adroddiadau unigol ar y tudalennau sy'n cynnwys lluniau a manylion cyswllt yr aelodau. Awgrymwyd cynnwys eitem yn Rhaeadr yn esbonio sut i ddod o hyd i adroddiadau'r wyth aelod am 2012/13 ac yn gwahodd yr aelodau eraill i gynhyrchu eu hadroddiadau blynyddol eu hunain y flwyddyn nesaf.
- Y gallai'r cyhoeddiad blynyddol o dreuliau aelodau gyfeirio at y ffaith bod rhai aelodau yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol.

PENDERFYNWYD

- (a) **Cynnal trafodaethau gyda'r aelodau etholedig na luniodd adroddiadau blynyddol eleni er mwyn canfod pa gefnogaeth ac arweiniad fyddai ei angen arnynt hwy i'w galluogi i lunio adroddiadau blynyddol yn 2013/14.**
- (b) **Cyflwyno adroddiad gerbron y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd nesaf yn sgil y trafodaethau hyn, i gynnwys argymhellion clir a phendant fyddai'n galluogi'r Cyngor i hwyluso'r broses o alluogi aelodau etholedig i lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn 2013/14.**

8. GWYBODAETH I AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd yn cyflwyno adborth rhai aelodau am Rhaeadr ac yn trafod dulliau o gyfathrebu gydag aelodau etholedig.

Gofynnwyd i'r aelodau am arweiniad:-

- (a) ar unrhyw ddatblygiadau pellach i Rhaeadr.
- (b) ynghylch y camau nesaf y dylid eu cymryd o safbwynt edrych ar dulliau o dderbyn sylwadau a / neu ymatebion gan aelodau etholedig
- (c) ynglŷn â'r dulliau gorau o dderbyn ymatebion gan yr aelodau i holiadur sydd wedi ei lunio ar eu cyfer.

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol ei fod o'r farn bod Rhaeadr yn gyfrwng da i roi gwybodaeth allan i'r aelodau, ond ddim cystal o safbwynt derbyn ymatebion i ymgynghoriadau.

Ymhelaethodd y Rheolwr Cyfathrebu ar y canfyddiad a'r defnydd hyd yn hyn o Rhaeadr gan nodi efallai bod lle i gyd-gordio'n well fel na ofynnir am ymatebion i ormod o ymgynghoriadau ar yr un pryd.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

PENDERFYNWYD cyflwyno'r arweiniad a ganlyn mewn perthynas â Rhaeadr a dulliau o gyfathrebu gydag aelodau:-

- Y dylid hysbysu'r holl adrannau mai Rhaeadr yw'r norm bellach ar gyfer cyfathrebu â'r aelodau.
- Y dylid anfon e-byst at aelodau yn ennyn sylwadau ac ymatebion ar bynciau penodol yn Rhaeadr.
- Y dylid disgwyl am ganlyniad yr holiadur cyn penderfynu'n derfynol ar amlder cyhoeddi Rhaeadr.
- Y croesawir y drefn o atgoffa'r aelodau pan fo rhifyn newydd o Rhaeadr ar gael.
- Y croesawir y syniad o roi tudalen ar Rhaeadr i bob Aelod Cabinet ac y dylai bod gan Gadeirydd y Cyngor dudalen hefyd.
- Y byddai'n fuddiol cael gwybodaeth ar Rhaeadr ynglŷn â gwaith stryd a gwaith ffordd.
- Bod perygl creu gormod o gyfryngau gwybodaeth i aelodau ac y byddai rhyw fath o fodd chwilio [*search facility*] yn fuddiol.
- Y byddai'n fuddiol cael linc fyddai'n galluogi'r aelodau i dracio'r hyn sydd wedi digwydd i geisiadau cynllunio aeth i apêl.
- Y dylai eitemau yn Rhaeadr fod yn gryno a phwrpasol rhag gorlwytho'r aelodau â gwybodaeth.
- Na ddylai Rhaeadr gael ei gymryd fel esgus gan swyddogion i beidio rhoi gwybodaeth i aelodau unigol ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn eu hardal.

9. HYFFORDDIANT AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol yn nodi:-

- Mai anghyson iawn fu'r diddordeb ymhlith aelodau mewn cael adolygiad o'u hanghenion hyfforddiant a datblygu ac ychydig o ymateb a gafwyd i eitem yn Rhaeadr yn ceisio ennyn eu diddordeb.
- Y bwriadai gysylltu'n ffurfiol â phob aelod i ofyn iddynt a ddymument gael cyfweiliad a Chynllun Datblygu Personol ai peidio, gan weithredu ar sail hynny.
- Yn unol â'r gofynion, byddai trefniadau'n cael eu gwneud i adnabod pobl i gynnal y cyfweiliadau unwaith y byddai'r niferoedd wedi'u cadarnhau.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.35am.

| | |
|----------------------------|--|
| CYFARFOD | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD | 11 Rhagfyr 2013 |
| PWNC | ADNODDAU I GEFNOGI GWAITH AELODAU |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | Diweddarau'r Pwyllgor ar yr adnoddau sydd mewn lle ac i ystyried y prif faterion sydd angen sylw ar gyfer cynllunio adnoddau i'r dyfodol. |
| AWDUR | Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Strategol a Gwella. |

1. CEFNDIR

- 1.1 Un o gyfrifoldebau sylfaenol y Pwyllgor hwn yw ystyried a gwneud argymhellion ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r ddarpariaeth staff, adeiladau ac adnoddau eraill ar gyfer fy ngalluogi i gefnogi aelodau i gyflawni rolau.
- 1.2 Fel yr adroddais llynedd wrth sefydlu'r Gwasanaethau Democrataidd gwnaed nifer o gamau i geisio cyfarfod a'r gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 o fewn yr adnoddau a oedd ar gael gyda'r union strwythur staffio yn ganlyniad i ail strwythuro cyffredinol o'r Adran i ymdopi a nifer o newidiadau a rhyddhau arbedion.

2. Y GEFNOGAETH GYFREDOL

Gweler crynodeb o'r gefnogaeth i aelodau yn Atodiad A.

- 2.1 Prif bwyslais y Gwasanaeth Democrataidd yw cefnogi cynghorwyr anweithredol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau a chyfrannu'n llawn at waith y Cyngor. Mae'r gefnogaeth graidd yn cael ei ddarparu drwy gyfuniad o dîm gwasanaethau democrataidd ac adnoddau eraill yr Adran Strategol a Gwella yn benodol y tîm perfformiad. Yn ogystal rydym yn comisiynu rhai elfennau gan Adrannau eraill y Cyngor. Nid oes unrhyw newid yn y strwythur ers adroddiad llynedd.

2.2 Mae'r prif weithgareddau a'r gefnogaeth fel a ganlyn:-

2.1.1 Trefnu a chefnogi pwyllgorau'r Awdurdod.

Mae'r tîm craidd Cefnogi Aelodau a Chraffu yn gyfrifol am roi arweiniad, trefnu, cefnogi a chofnodi oddeutu 179 o gyfarfodydd yn flynyddol.

Yn ogystal mae rhai cyfarfodydd eraill tu allan i'r drefn Pwyllgorau ffurfiol angen cefnogaeth i gynnwys y Grŵp Busnes a'r Fforwm Cadeiryddion.

2.2.2 Hybu rôl trosolwg a chraffu'r Awdurdod.

Y prif bwyslais yw darparu cyngor ac arweiniad annibynnol i'r Pwyllgorau Craffu. Mae'r gefnogaeth yma yn cael ei gyflawni drwy gyfraniad o'r tîm craidd a'r adnoddau Tîm Perfformiad ac Effeithlonrwydd a hefyd drwy flaenoriaethu amser aelodau eraill o dîm Strategol a Gwella. Y prif elfennau yn cynnwys y Pwyllgorau Craffu, y cyfarfodydd paratoi a'r Ymchwiliadau Craffu.

2.2.3 Cyflogau a threuliau aelodau.

Mae'r cyfrifoldebau yma yn cynnwys rhoi arweiniad cyffredinol ac yn benodol ar ganllawiau "Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol" cenedlaethol gyda'r weinyddiaeth yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gefnogol.

2.2.4 Hyfforddiant a datblygiad.

Mae'r rôl yn bennaf gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu rhaglen ddatblygol a hefyd darparu rhai seminarau ar y cyd gydag Adnoddau Dynol.

2.2.5 Gwybodaeth i aelodau.

Yn ogystal â darparu arweiniad, gwybodaeth, ac ymateb i ymholiadau achlysurol mae'r gefnogaeth yma yn cynnwys "Rhaeadr" sydd yn cael ei gefnogi gan swyddog penodol yn yr Adran Gofal Cwsmer.

2.2.6 Cefnogaeth i'r grwpiau gwleidyddol

Y gefnogaeth yma yn cynnwys trefnu cyfarfodydd grwpiau cofnodi a chynorthwyo aelodau fel bo'r angen gyda gohebiaeth fewnol ac allanol.

3. **PRIF FATERION**

3.1 Bydd aelodau yn llawn ymwybodol bod y sefyllfa ariannol yn un heriol iawn dros y blynyddoedd nesaf a bydd gofyn i'r Cyngor cyfan leihau costau yn sylweddol. Yn hyn o beth y bwriad yw i'r Cyngor llawr 6.3.14 fabwysiadu strategaeth arbedion a chytuno rhaniad y targedau arbedion i bob Adran ar gyfer y cyfnod 2015-2017/18.

3.2 Mae rhai datblygiadau penodol sydd yn codi o ofynion y Mesur Llywodraeth Leol ac sydd eisoes yn cael sylw gan y Pwyllgor yn galw am gapasiti gan gynnwys

- gwe ddarlledu
- mynychu cyfarfodydd o bell
- adolygiadau blynyddol o anghenion datblygu
- paratoi adroddiadau blynyddol

Rydym yn cynllunio i ymdopi a'r gofynion yma oddifewn i'r adnoddau cyfredol ond rhaid nodi elfen o risg gan na fyddwn yn hollol sicr o'r galw ar adnoddau tan fyddwn wedi mewnosod a rhedeg y datblygiadau cyflawn.

3.3 Mae goblygiadau ein strategaethau a threfniadau cyfredol hefyd wrth gwrs yn allweddol yn yr hafaliad adnoddau.

3.3.1 O ran ein blaenoriaeth i ymchwiliadau craffu rwyf nawr yn ceisio ymateb i gefnogi hyd at 4 ymchwiliad craffu ar y tro ar draws y Pwyllgorau Craffu. Mae hyn yn gynydd o un ymchwiliad craffu o'r nifer gwreiddiol yn dilyn cytundeb bod angen ymateb i ehangder cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwasanaethau drwy gael ymchwiliadau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.3.2 Mae'r penderfyniad i sefydlu'r Fforymau Ardal wedi ychwanegu gwaith sef 4 Fforwm yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn. Eto rydym yn ceisio ymdopi a hyn oddifewn i adnoddau cyfredol.

3.4 Gorchymyn Personau Dynodedig.

Beth sydd yn digwydd fan hyn yw bod Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd newydd ar Awdurdodau Lleol i graffu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yn eu hardal.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud hyn fesul cam ac yn y cam cyntaf, yr awgrym yw ei fod yn canolbwyntio ar y cyrff a ganlyn:-

- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau GIG
- Awdurdodau Tan ac Achub
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

Yn amlwg bydd craffu'r sefydliadau yma yn ychwanegu pwysau ar yr aelodau craffu a'r swyddogion a bydd rhaid cynllunio a blaenoriaethu yn ofalus iawn i gyfarch y disgwyliadau gyda'r adnoddau cyfredol.

4. **DATBLYGIADAU ERAILL.**


Yn ogystal â chefnogaeth staff mae adroddiadau eraill megis technoleg ac adeiladu yn bwysig i alluogi aelodau i gyflawni rolau yn effeithiol. Un o'r materion sydd yn cael sylw ar hyn o bryd yw hygyrchedd ein hadeiladau ac yn benodol sicrhau mynediad teg i bawb. Rwyf wedi comisiynu gwaith gan yr uned eiddo yn yr Adran Gofal Cwsmer i asesu beth sydd angen sylw i wella'r sefyllfa. Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor nesaf gyda diweddariad ar hyn.

5. **CASGLIADAU**

Yn gyffredinol rwyf o'r farn ein bod hyd yma wedi llwyddo i ymdopi gyda her Mesur Llywodraeth Leol 201, gan sefydlu'r Gwasanaeth Democrataidd heb gost ychwanegol a darparu cefnogaeth o ansawdd ond gyda lle i wella. Rhaid cydnabod bod rhywfaint o rwystredigaeth ynglŷn â capasiti i gynorthwyo aelodau i daclo fwy o faterion e.e. ymchwiliadau craffu. Sut bynnag o ystyried yr hinsawdd ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a'r angen am arbedion sylweddol iawn dros y blynyddoedd nesaf bydd angen ystyriaeth barhaus o gyfleoedd i fod yn fwy effeithlon a chyflawni gyda llai o adnoddau.

CRYNODEB O'R GEFNOGAETH - SUT/ SUMMARY OF SUPPORT – HOW

STRATEGOL A GWELLA/ STRATEGIC AND IMPROVEMENT



| | |
|-----------------|--|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 11 Rhagfyr, 2013 |
| PWNC | Protocol Cyfryngau Cymdeithasol |
| PWRPAS | Cyflwyno drafft cychwynol o bolisi cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cynghorwyr |
| AWDUR | Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. Yn ei gyfarfod diwethaf, penderfynodd y pwyllgor hwn fel a ganlyn:-

“(a) Argymhell y dylai Gwynedd fabwysiadu eu canllawiau eu hunain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

(b) Argymhell sefydlu is-grŵp ar y cyd gyda’r Pwyllgor Safonau i gydweithio ar lunio canllawiau cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ar gyfer Gwynedd (gyda’r union broses ar gyfer cyflawni hynny i’w gytuno rhwng Cadeiryddion y ddau bwyllgor).

(c) Enwebu Cadeirydd y pwyllgor hwn, Y Cynghorydd Lesley Day, ynghyd â’r Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Sion Wyn Jones i wasanaethu ar yr is-grŵp.”

2. Cyfarfu’r Grwp Tasg Cyfryngau Cymdeithasol ar 18 Tachwedd. Mynychwyd y cyfarfod gan dri aelod o’r Pwyllgor Safonau a hefyd gan ddau o gynrychiolwyr y pwyllgor hwn. Cafwyd trafodaeth buddiol iawn o ran manteisio a risgiau’r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr.
3. O ran y ffordd ymlaen, cytunwyd i lunio protocol cryno lleol ac mae’r gwaith o lunio hwnnw gydag aelodau’r gweithgor ar y gweill. Atodir er gwybodaeth y pwyllgor y drafft cyfredol o’r protocol fel ag y mae. Y bwriad yw y bydd y Grwp Tasg yn cymeradwyo drafft terfynol yn yr wythnosau nesaf gan ymgynghori yn eang gyda phob aelod o’r Cyngor wedi hynny gyda golwg ar i’r Pwyllgor Safonau ei fabwysiadu yn ei gyfarfod nesaf a’i gyflwyno i’r Cyngor llawn ar 6 Mawrth.
4. Yn amlwg, gan na fydd cyfarfod pellach o’r pwyllgor hwn cyn hynny, byddai’n dda cael sylwadau cychwynol y pwyllgor yn awr, gan gofio y bydd modd i bob aelod ymateb maes o law i’r ymgynghoriad ehangach.
5. Gwahoddir unrhyw sylwadau cychwynol ar y protocol drafft cychwynol sydd ynghlwm.

CYNGOR GWYNEDD

PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL I GYNGHORWYR

RHAGARWEINIAD

1. Mae “Cyfryngau Cymdeithasol” yn newid y ffordd y mae pobl yn cyfathrebu a rhwydweithio. Mae’r newid hwn yn cynnig llwyfan newydd ar gyfer ymgysylltu, cyfathrebu a gwranddo. O ganlyniad, mae’n naturiol bod y newid hwnnw yn effeithio’r modd y mae’r Cyngor yn cysylltu â dinasyddion y sir a hefyd y modd y mae cynghorwyr yn gweithredu.
2. Diben y ddogfen bolisi hwn yw cynnig arweiniad i gynghorwyr ar y defnydd o’r cyfryngau hyn.

Y MANTEISION A’R CYFLEON

3. Mae datblygiad y “Cyfryngau Cymdeithasol” yn cynnig cyfleon newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda a cheisio ymateb a barn gan drigolion. Mae’r dulliau gwahanol (Facebook, Trydar, Blog ayb) yn cynnig dull sydyn, rhad ac effeithiol o wneud hynny. Maent yn ddulliau hefyd sydd yn galluogi gwneud cyswllt â rhai sydd, efallai, heb fod ynghlwm â phrosesau democrataidd o’r blaen.
4. O ganlyniad, maent yn gyfryngau all brofi’n hynod ddefnyddiol i’r Cyngor yn gorfforaethol a hefyd i gynghorwyr lleol. O’u defnyddio’n iawn, gall cynghorwyr brofi budd mawr ac mae’r Cyngor yn annog defnydd priodol ohonynt gan gynghorwyr. Fodd bynnag, rhaid bod yn ymwybodol o’r peryglon a’r risgiau sydd ynghlwm â’u defnydd.

EGWYDDORION SYLFAENOL

5. Yr egwyddor sylfaenol yma yw bod “Safon Gwynedd” (gweler Atodiad 1) a’r Côt Ymddygiad i Gynghorwyr (Atodiad 2) yn berthnasol i unrhyw weithgaredd, yn cynnwys defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol. Felly dylai ymddygiad aelod pan yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol gadw at yr un safonau ag ymddygiad aelod mewn pwyllgor, cyfarfod cyhoeddus neu wrth ohebu â rhywun.
6. Felly, yn ogystal â dyletswyddau cyfreithiol arferol, dylid cofio’r egwyddorion a ganlyn:-
 - Dangos parch at eraill
 - Peidio â datgelu gwybodaeth eithredig neu gyfrinachol
 - Dim “bwlio” neu dychryn eraill
 - Dim ceisio budd personol
 - Cofio egwyddorion cydraddoldeb
 - Bod yn ofalus rhag penderfynu ymlaen llaw

Y CYFRIFOLDEB DROS “GYNNWYS”

7. Un gwahaniaeth mawr rhwng y cyfryngau cymdeithasol â chyfryngau a llwyfannau eraill yw bod ceidwad unrhyw Safle” yn gyfrifol nid yn unig em eu datganiadau eu hunain ond hefyd am datganiadau gan eraill sydd yn cael eu gwneud ar y safle hynny. Felly, os oes y gwneir datganiad amhriodol, perchennog y “safle” sydd yn gyfrifol am ei dynnu datganiad oddi yno.

TRAFODAETH “WLEIDYDDOL”

8. Mae trafodaethau “gwleidyddol” lleol yn medru bod yn rhai cadarn a heriol. Tra mae’r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi derbyn bod yn rhaid i aelodau fod â “chroen mwy trwchus” gan bod beirniadau syniadau a barn yn rhan o drafodaeth ddemocrataidd, mae “Safon Gwynedd” yn ei wneud yn glir na ddylid bod yn sarhau na’n ddilornus hyd yn oed yn y trafodaethau “gwleidyddol” hynny. Mae’r protocol hwn yn ategu bod y safonau hynny’n berthnasol i ddefnydd aelodau o gyfryngau cymdeithasol.

Y CYNGHORYDD FEL UNIGOLYN

9. Fe all cynghorydd sefydlu safleoedd yn ei enw ei hun neu fel “Y Cynghorydd****”. Dylai aelodau fod yn ymwybodol bod y protocol hwn yn berthnasol i’r naill senario a’r llall. Gan ei fod yn amlwg yn wybodaeth gyhoeddus bod unigolyn yn gyngorydd etholedig, dylai aelod fod yr un mor ofalus o ran cynnwys y naill a’r llall. Mae perthnasedd y protocol i faterion yn dibynnu ar y cynnwys ond mae’r safonau ymddygiad yn gyson ar eu traws.

Y DEFNYDD O OFFER Y CYNGOR

10. Bydd cyngorydd yn medru defnyddio offer y Cyngor ar gyfer cyhoeddi deunydd ar gyfryngau cymdeithasol ond dylai aelodau fod yn fwy gwylidwrus eto o ran y cynnwys

DEFNYDD MEWN CYFARFODYDD

11. Caniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd o’r Cyngor a’i bwyllgorau. Fodd bynnag, dylid cofio:-
 - Dylai sylw pennaf aelod fod ar y drafodaeth sydd ar y gweill ac ar y penderfyniad y mae’n rhaid ei wneud
 - Ni ddylid trydar ar unrhyw fater eithredig neu gyfrinachol
 - Ni ddylid trydar ar fanylion cyfarfodydd

GWE-DDARLLEDU

13. Bydd y Cyngor yn symud maes o law i ddarlledu rhai o’i gyfarfodydd (Cyngor llawn a rhai pwyllgorau) dros y We. Fel rhan o’r datblygiad hynny, byddwn yn annog y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i aelodau o’r cyhoedd ymateb i

drafodaethau. Fodd bynnag, bydd hynny'n digwydd trwy "safleodd" swyddogol y Cyngor. Bydd defnydd o gyfryngau gan aelodau etholedig yn unigol yn disgyn o dan paragraff 11 o'r protocol hwn

HYFFORDDIANT

14. Fe ddarperir hyfforddiant i aelodau ar y protocol hwn er mwyn arfogi aelodau i wneud defnydd addas a chyfrifol o'r cyfryngau ond yn pwysleisio cyfrifoldeb yr aelod unigol dros ei ddefnydd ohonynt

DELIO Â CHWYNION

15. Dylid cyflwyno unrhyw gwynion am y drefn i'r Swyddog Priodoldeb ***

ATODIAD 1 – SAFON GWYNEDD

ATODIAD 2 – COD YMDDYGIAD

ATODIAD 3 - CANLLAW CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

DRAFT

| | |
|-----------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 11 Rhagfyr, 2013 |
| PWNC | Gwe Ddarlledu |
| PWRPAS | Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau gwe-ddarlledu |
| AWDUR | Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

CYFLWYNIAD

1. Adroddwyd eisoes i'r pwyllgor hwn ar Llywodraeth Cymru i hyrwyddo democratiaeth lleol a chynhwysol, ymysg pethau eraill trwy annog datblygiad gwe-ddarlledu.
2. Mae'r Cyngor wedi derbyn grant i'n galluogi i ddarlledu yr oll / neu rai o gyfarfodydd y Cyngor.
3. Bellach, mae datblygiadau i hwyluso hyn (o ran camerâu ac ati) wedi eu cwblhau yn Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda. Mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn ac sydd ar y gweill yn golygu y byddwn mewn sefyllfa lle rydym yn medru cynhyrchu'r deunydd i'w ddarlledu ond bod angen trefnu wedyn i ddarlledu'r deunydd ar y we.

GWAITH PELLACH

4. Er mwyn dysgu o brofiadau eraill, bum innau a swyddog arall o'r adran ar ymweliad â Chyngor Sir Gaerfyrddin sydd eisoes wedi cyflwyno system o'r fath, mewn sefyllfa lle y defnyddir dwy iaith. Profodd yr ymweliad yn fuddiol iawn gydag amryw o wersi pwysig yn dod i'r golwg yn cynnwys:-
 - Yr angen am gynllunio manwl ymlaen llaw, sydd, yn allweddol, yn caniatáu digon o amser i dreialu system cyn iddo fynd yn fyw
 - Pwysigrwydd lleihau cymaint â phosib ar y gwaith sydd ynghlwm â "rhedeg" y system pan fo cyfarfod ar y gweill
 - Yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth aelodau o sensitifrwydd systemau o'r fath
5. Mae trafodaethau pellach yn parhau a rydym wrthi yn llunio rhaglen waith rhesymol ddylai fedru ein harwain at sefyllfa o fedru darlledu am y tro cyntaf yn fuan ar ôl Ebrill 2014 ar ôl treialu priodol, gan ei gyflwyno yn raddol o hynny ymlaen. Yn yr amser hynny, bydd yn rhaid gwahodd cynigion am y gwaith ac, yn y cyd-destun hwn, mae Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol yn ei le ddylai hwyluso hynny.
6. O ran y pwyllgorau sydd dan sylw, byddai'r cytundeb gydag unrhyw ddarparwr ar sail nifer penodol o oriau o ddarlledu. Yn amlwg felly, byddai'n rhaid blaenoriaethau'r

rhai fyddai o fwyaf o ddiddordeb. Y bwriad ar y cychwyn fyddai canolbwyntio ar y Cyngor llawn a'r Pwyllgor Cynllunio, gan ddewis cyfarfodydd o'r Cabinet a Phwyllgorau Craffau ar gyfer y gweddill o'r oriau ar sail y diddordeb tebygol yn y materion fyddai gerbron.

7. Wrth gwrs, mae'r pwyllgor hwn eisoes wedi trafod un elfen allweddol o'r ddarpariaeth, sef sut y byddwn yn dymuno ymdrin â gofynion cyfieithu. Yn amlwg, ar hyn o bryd, mae cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd lle mae rhywun di-Gymraeg yn bresennol ond, os nad oes person di-Gymraeg yn bresennol, nid oes cyfieithu ar y pryd. Felly, os na fyddai rhywun di-Gymraeg yn bresennol mewn cyfarfod sydd yn cael ei we-ddarlledu, ni fyddai cyfieithiad yn cael ei ddarparu a felly ni fyddai ffrwd sain i'r di-Gymraeg ar gael i unrhyw un a fyddai'n gwrando neu wyllo ar-lein. Mae'r pwyllgor eisoes wedi derbyn yr awgrym na fyddai'n ddefnydd da o adnoddau i fod yn darparu cyfieithiad ym mhob cyfarfod "rhag ofn" bod rhywun di-Gymraeg yn gwyllo ac yn gwrando ar-lein. Unwaith y bydd y drefn yn weithredol, awgrymir ein bod yn adolygu'r defnydd o'r ffrwd di-Gymraeg, i asesu'r galw cyn ystyried a ddylid gwneud unrhyw ddarpariaeth o gwbl ar gyfer hyn.
8. Mae'r trafodaethau cychwynnol yr ydym wedi eu cael gyda darparwyr posib yn cynnig y posibilrwydd o gysylltu'r system gwe-ddarlledu gyda system ehangach i wella rheolaeth y Cyngor dros ei waith pwyllgor. Byddai system o'r fath yn medru gwella'r rheolaeth dros ddogfennau, yn medru cysylltu trafodaethau sydd yn cael eu gwe-ddarlledu gyda'r dogfennau sydd dan sylw yn y cyfarfodydd ac yn medru cynnig cyswllt "cyfryngau cymdeithasol" i agor trafodaethau ar faterion o bwys i'r sir
9. Un elfen pwysig arall, wrth gwrs, yw'r gost. Tra mae'r elfen o grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru o gymorth i sefydlu'r system, mae'n rhaid bod yn ymwybodol o symud i system fel hyn bod goblygiadau cost refeniw – a hynny ar adeg pan y mae adnoddau yn crebachu. Wedi dweud hynny, gyda'r pwysau ar y trafodion democrataidd yn cynyddu, byddai gwerth amlwg mewn sicrhau bod rhai o drafodaethau allweddol y Cyngor yn agored i bawb ei weld a'u deall o fudd mawr o ran democratiaeth agored.

ARGYMHELLION

10. Argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i gefnogi'r cyflwyno'r drefn, ar yr amod bod y gyllideb yn caniatáu, gan ofyn am adroddiad yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar raglen waith fanwl ar gyfer ei gyflwyno.

| | |
|-----------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 11 Rhagfyr 2013 |
| PWNC | Gwefannau i Gyngorau Tref a Chymuned |
| PWRPAS | Cyflwyno diweddariad o'r cynllun i gefnogi cyngorau tref a chymuned i ddatblygu presenoldeb ar y we |
| AWDUR | Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. CEFNIDIR

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i alluogi Awdurdodau Lleol i ddarparu grant o £500 yr un i Gyngorau Tref a Chymuned i sefydlu gwefan.
- 1.2 Pwrpas y grant hwn yw cynorthwyo Cyngorau Tref a Chymuned i baratoi ar gyfer Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), sydd yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned i gyhoeddi gwybodaeth ar wefan; pwrpas y grant yw eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer hynny.
- 1.3 Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi ei gomisiynu i weinyddu ac adnabod lefel y diddordeb gan Gyngorau Tref a Chymuned mewn datblygu gwefan.

2. DIWEDDARIAD

- 2.1 Ym mis Gorffennaf, rhoddwyd cynnig i'r Cyngorau Tref a Chymuned i ddatgan diddordeb mewn derbyn grant o hyd at £500.00 i ddatblygu gwefan. Gan fod y swm ar gael yn gymharol isel, penderfynwyd cynnig dau opsiwn, sef:
 - a) Opsiwn 1
Cyngor i sefydlu gwefan unigol, gan ymrwymo i gynnal y wefan am isafswm o dair blynedd.
 - b) Opsiwn 2
Cydweithio â Chyngorau Tref a Chymuned eraill yn y sir i sefydlu gwefan ar y cyd fyddai'n cynnwys adran i bob Cyngor unigol, gan ymrwymo ar y cyd i gynnal y wefan am isafswm o dair blynedd.
- 2.2 **Opsiwn 1**
Penderfynwyd y byddai Cist Gwynedd yn gweinyddu'r broses grant ar gyfer Opsiwn 1 uchod.

- 2.3 Ym mis Medi, derbyniwyd eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru y byddai modd i Gyngorau Tref a Chymuned ddefnyddio'r grant ar gyfer y pwrpasau canlynol:
- creu presenoldeb ar y we o'r newydd
 - datblygu presenoldeb ar y we sydd eisoes yn bodoli.

- 2.4 Ar ddiwedd mis Hydref, bu i'r Gyngorau Tref a Chymuned ddatgan diddordeb fel a ganlyn yn y grant i sefydlu gwefan:

| | Opsiw 1 | Opsiw 2 | Opsiw 1+2 | Dim Diddordeb | Heb Ymateb |
|--------------------------|---------|---------|-----------|---------------|------------|
| Cyngorau Tref a Chymuned | 21 | 19 | 2 | 10 | 9 |

- 2.5 Ym mis Tachwedd, anfonwyd ffurflenni cais gan Cist Gwynedd i'r Gyngorau Tref a Chymuned ddaru ddatgan diddordeb yn Opsiw 1, gyda dyddiad cau'r broses ymgeisio ar 10 Ionawr 2014. Fel rhan o'r broses, pwysleisiwyd yr angen i wario a hawlio'r grant cyn diwedd mis Mawrth 2014.

- 2.6 I gyd-fynd gyda'r broses ymgeisio, cyflwynwyd canllaw sylfaenol i'r Gyngorau Tref a Chymuned a roddai arweiniad iddynt ar fanylion technegol i'w cynnwys mewn manyleb i wahodd prisiau gan ddarparwyr.

Opsiw 2

- 2.7 Uned TG, Adran Gofal Cwsmer y Cyngor sydd yn arwain ar Opsiw 2.
- 2.8 Bwriad yr Uned TG yw cynnull y rhanddeiliaid ynghyd, sef y Gyngorau Tref a Chymuned, er mwyn sicrhau eglurder o'r anghenion a phenderfynu ar ddarparwr.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-
- parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i Gyngorau Tref a Chymuned, gan dderbyn diweddariad ar y niferoedd sydd wedi ymgeisio am y grant yn y cyfarfod nesaf ar 18 Mawrth 2014.

| | |
|-----------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 11 Rhagfyr 2013 |
| PWNC | Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig |
| PWRPAS | Dysgu gwersi o brofiad yr aelodau o lunio Adroddiadau Blynyddol eleni |
| AWDUR | Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eisoes yn ymwybodol fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau:

- I bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi; ac
- i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

1.2 Bwriad yr Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhyngddynt â'r cyhoedd. Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y byddai'r adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt, gan alluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol.

2. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GWYNEDD 2012/13

2.1 Yn 2012/13, bu i'r Cyngor weithredu peilot o'r drefn yn dilyn arweiniad y Pwyllgor hwn, gan ei gwneud hi'n ofynnol i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer, a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unig i lunio adroddiad blynyddol, er bod rhyddid i unrhyw aelod arall gynhyrchu adroddiad blynyddol hefyd.

2.2 Canlyniad y peilot hwn oedd i 8 aelod etholedig lunio adroddiadau blynyddol, sef 1 aelod o'r weithrediaeth, a 7 aelod rheng-flaen. Gellir canfod yr adroddiadau blynyddol ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y linc isod:

3. ADRODDIADAU BLYNYDDOL 2013/14

- 3.1 Er mwyn hwyluso'r ffordd i ragor o aelodau etholedig lunio adroddiad blynyddol yn 2013/14, ac er mwyn eu cynorthwyo i wneud hynny, awgrymir darparu'r canlynol fel cymorth:
- a) templed safonol ar gyfer yr adroddiad blynyddol
 - b) gwybodaeth am nifer y pwyllgorau a fynychwyd yn ystod 2013/14 (ar gyfer pob cynghorydd yn unigol)
 - c) gwybodaeth am nifer yr hyfforddiant a fynychwyd yn 2013/14 (ar gyfer pob cynghorydd yn unigol).
- 3.2 Bydd gweddill y gofod ar y templed (fydd wedi ei gyfyngu i un ochr A4) ar gael i bob aelod fanylu ar agweddau penodol o'u gwaith fel cynghorydd yn ystod 2013/14.
- 3.3 Mae gohebiaeth eisoes wedi ei anfon i'r aelodau drwy *Rhaeadr* yn gofyn iddynt gadarnhau eu bwriad o lunio adroddiad blynyddol ar gyfer 2013/14. Bydd y wybodaeth yma o gymorth i asesu'r galw a sicrhau adnoddau digonol i gefnogi'r aelodau i lunio adroddiadau blynyddol yn 2013/14.

4. ARGYMHELLION

- 4.1 Argymhellir y dylid:
- a) derbyn y bwriad o lunio templed yn cynnwys data am nifer y pwyllgorau a fynychwyd a nifer yr hyfforddiant a fynychwyd ar gyfer pob cynghorydd yn unigol fel ffordd o gefnogi aelodau i lunio adroddiadau blynyddol yn 2013/14.